Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-31-19 PTN2

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

28 Tachwedd 2019

Annwyl Llŷr,

Cytunais i roi gwybod i'r Pwyllgor am fy nghasgliadau mewn perthynas ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 gan gynnwys eglurhad ar gyfer cyrff a fydd yn cael eu heithrio a'r effaith lle bo hynny'n briodol.

Derbyniwyd naw ymateb unigol i'r ymgynghoriad a dau ymateb gan grwpiau ar ran Is-grŵp Cyllid y Cyrff a Noddir ac Elusennau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Yn ystod y broses ymgynghori, cyfarfu fy swyddogion â chyrff yr awgrymwyd y dylid eu dynodi i drafod fy mhryderon, ac roedd y cynnig hwnnw ar gael i bob corff. Roedd prif ganfyddiadau'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

- Diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r fframwaith gwariant cyhoeddus a diben y dosbarthiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i'r sector llywodraeth ganolog a goblygiadau hynny
- Dull anghyson o fynd ati i gyllidebu ymhlith cyrff hyd braich ac o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn
- Camddealltwriaeth o ddiben dynodi a'i oblygiadau
- Pryderon ynghylch alinio dulliau cyfrifyddu ar draws sectorau ag anghenion cyfrifyddu sy'n wahanol i'r llywodraeth ganolog, ee y sector elusennau, a'r angen i sicrhau na fydd unrhyw ganlyniadau diangen ar gyfer y cyrff hyd braich.

Gan ystyried cwmpas eang a chymhlethdod y materion a godwyd, rwyf wedi penderfynu gohirio yn achos y rhan fwyaf o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad. Byddaf yn datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd a fydd yn cael ei roi ar waith yn unol ag amserlen briodol i sicrhau bod modd ymgynghori mewn modd adeiladol â'r cyrff dan sylw. Bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys:

- rhaglen ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer fframwaith y sector cyhoeddus a dosbarthiadau'r ONS
- rhoi dulliau cyfrifyddu cyson ar waith ar draws pob corff hyd braich

- meithrin gallu a chapasiti technegol i gyfuno cyrff yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Byddaf hefyd yn mynd i'r afael â'r pryderon penodol a godwyd gan yr amrywiol gyrff, yn arbennig mewn perthynas â dosbarthu, defnyddio cronfeydd wrth gefn a chyrff sydd â statws elusennol.

Disgwyliaf mai cyfnod o flwyddyn i ddwy flynedd fydd y gohiriad hwnnw yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, byddai hyn yn amodol ar ddatrys unrhyw faterion technegol a fydd yn codi mewn perthynas â chyllidebu a/neu gyfrifyddu mewn cyrff unigol.

Er bod y gohiriad hwn yn gymwys i'r rhan fwyaf o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad, rwy'n parhau â'r ymarfer alinio ac yn cynnig dynodi 3 chorff ar gyfer 2019-20 lle nad oes unrhyw faterion sylweddol wedi codi. Y cyrff hynny yw:

- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Busnes Rhyngwladol Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.